# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Berwyn Parry Jones |
| **Swyddog Perthnasol:** | Sara Marged Jones (Rheolwr Prosiectau) |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 19 Medi, 2023 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:-

- Yr hyn sydd wedi ei gyflawni fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023
- Lle mae'r mesurau perfformiad arni
- Diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor 2018-23**

Fel adran fe wnaethom arwain ar 2 flaenoriaeth gwella o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23, ac rwy'n crynhoi'r hyn a gafwyd ei gyflawni hyd yma fel a ganlyn:

4.1 Cymunedau Glan a Thaclus

4.1.1 Mae'n wir nodi bod elfennau o waith holl wasanaethau'r adran yn cyfrannu at greu Gwynedd glan a thaclus. Ond, rhan annatod o'r flaenoriaeth yma oedd sefydlu 5 Tîm Tacluso 'Ardal Ni'. Mae'r Timau wedi bod yn llawn weithredol ers canol yr haf 2022 ac wedi bod yn ymgymryd â gwaith sy'n cyfrannu at wella edrychiad a delwedd ein strydoedd ac ein hamgylchedd. Rydym yn falch o adrodd bod y Timau wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan aelodau, Cynghorau Cymuned a Thref a thrigolion lleol.

4.1.2 Er mwyn gwireddu'r hyn addawyd o fewn ein hadroddiad Cabinet a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg technoleg gwybodaeth (TG) cyflwynir ffurflen ddigidol er mwyn derbyn ceisiadau am waith sydd yn cael eu cyflwyno gan aelodau lleol. Ers mis Medi 2022, mae'r Timau wedi derbyn ar gyfartaledd 48 o geisiadau bob mis. Mae'r ceisiadau yma yn rhan o waith ymatebol y Timau ac yn ychwanegol i'w gwaith cylchol. Rydym yn gweld gwerth mawr yn ein ffurflen ddigidol a'r system wrth gefn gan ei fod yn caniatáu i'r Swyddog Prosiect/Arweinydd Tîm ymateb iddynt yn brydlon a'u hanfon ymlaen i dabled symudol y Timau perthnasol. Mae'r tabledi symudol yn galluogi'r Timau i ddiweddaru'r ceisiadau gan atodi lluniau o'u gwaith tra allan yn gweithio o fewn ein cymunedau.

4.1.3 Datblygwyd 'hwb' ar gyfer y timau sydd wedi ei leoli o fewn y porth aelodau. Rhoddir mynediad i'r holl wybodaeth isod drwy'r 'hwb':

- Ffurflen ddigidol (cais am waith)
- Cylchdeithiau'r timau ar fap rhyngweithiol
- Holiadur boddhad cwsmer
- Lluniau/manylion o waith diweddaraf y timau.

4.1.4 Prif egwyddor y Timau yw mynd cam ymhellach na gwaith cynnal a chadw'r cylchol yr adran gan ganolbwyntio ar dacluso a glanhau dwfn. Pwrcaswyd peiriant golchi strydoedd sy'n cael ei bweru gan stem a pheiriant tynnu gwm cnoi a graffiti arbenigol er cyflawni'r agwedd hon.

4.1.5 Ers eu sefydliad, mae gwaith y Timau wedi cael eu hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

4.2 Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

4.2.1 Mae gwaith yr Adran yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaeth yn cyffwrdd ar bob trigolyn trwy'r Sir. Felly, adnabuwyd yr angen i hybu'r gwaith yma drwy ddefnyddio ystod eang o ffrydiau cyfathrebu.

4.2.2 Penodwyd Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn ymgymryd â'r gwaith oedd yn rhan o'r flaenoriaeth yma. Rydym yn rhannu datblygiadau newydd gan godi ymwybyddiaeth i waith y gwasanaethau drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn gyson. Datblygwyd hefyd newyddlen adran sy'n cael ei rannu'n chwarterol gyda'r staff.

4.2.3 Yn ogystal â hybu gwaith yr adran, rhoddwyd pwyslais ar fapio ein hasedau er mwyn ychwanegu haenau i Fap Gwynedd gan hefyd ddylunio map rhyngweithiol. Rydym wedi bod yn gweithio ar lansio map fydd yn cynnwys asedau megis biniau halen gan edrych i'w weld yn weithredol cyn cyfnod Cynnal Gaeaf. Bydd y map rhyngweithiol yma yn caniatáu i ddefnyddwyr weld lleoliad yr asedau ac adrodd ar unrhyw ddiffyg (e.e. angen ail-lenwi bin halen).

4.2.4 Cyhoeddwyd Cynllun y Cyngor 2023-28 yn ddiweddar a byddem fel adran yn adrodd ac yn arwain ar y 3 flaenoriaeth isod:

- Cymunedau Glan a Thaclus
- Gweithredu ar Risgiau Llifogydd (Mewndirol ac Arfordirol)
- Ymestyn ar gyfleoedd chwarae/cymdeithasu plant a phobl ifanc y Sir (Gan weithio ar y cyd gyda'r adran Addysg).

## 5. Prosiectau Eraill

5.1 Cynllun Fflyd Werdd

5.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Fflyd Wedd gan y Cabinet ar y 24 o Ionawr 2023 ble cytunwyd bod Adrannau'r Cyngor ddim i brynu, adnewyddu, neu waredu unrhyw gerbyd cyn yn gyntaf trafod eu hanghenion gyda'r Rheolwr Fflyd, a chael ei gydsyniad;

- bod angen creu system bŵl gorfforaethol yn lle rhai Adrannol;
- bod y Rheolwr Fflyd i arwain ar y gwaith o chwynnu’r stoc bresennol o gerbydau’r Cyngor, a chreu strwythur cerbydau i bob Adran.

5.1.2 Ers mabwysiadu’r Cynllun mae’r Pennaeth Adran a Rheolwr y Gwasanaeth Fflyd wedi cyfarfod â phob Adran yn ei dro er mwyn trafod amryw o faterion megis, cyflwyno’r Cynllun, adnabod y Fflyd sydd ei angen a sicrhau bod pob Adran yn gweithio’n agos gyda’r Rheolwr Fflyd. Mae’r adborth a chefnogaeth wedi bod yn dda iawn a phawb yn cefnogi’r bwriad sydd yn galonogol i’w nodi.

5.1.3 Rydym yn adrodd ar gynnydd ffrydiau gwaith y Cynllun Fflyd Werdd i’r Bwrdd Hinsawdd a Natur gan ganolbwyntio ar y penawdau isod:

- Y broses chwynnu (adolygiad o wir sefyllfa cerbydau adrannol)
- Caffael (gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol ar draws Cymru gan gynnwys; Byrddau Iechyd, Heddluoedd Cymru, a phartneriaid eraill y sector cyhoeddus)
- Ymestyn y niferoedd o gerbydau trydan fel rhan o Fflyd y Cyngor.

5.1.4 Mae’n bwysig nodi bod rhwystrau wedi eu hadnabod wrth weithredu’r camau cyntaf o’r Cynllun Fflyd Werdd. Rhannwyd y pryderon isod gyda’r Bwrdd Newid Hinsawdd er ystyriaeth:

- Diffyg adnoddau o fewn y Gwasanaeth Fflyd i symud y Cynllun yn ei flaen
- Amserlen cyflwyno pwyntiau gwefru
- Costau prynu cerbydau trydan yn uchel i’w gymharu â chost prynu cerbyd arferol.

5.2 Prosiect Fairbourne

5.2.1 Rydym fel Adran yn cyd-weithio’n agos gyda Grŵp Prosiect ‘Fairbourne Symud Ymlaen’ gan edrych ar risgiau llifogydd yn sgil ffactorau newid hinsawdd. Mae Bwrdd Prosiect ‘Fairbourne Symud Ymlaen’ yn cynnwys cynrychiolaeth gan sawl corff, gan gynnwys Cyngor Cymuned Arthog (Cadeirio), Cynghorydd Lleol Gwynedd, Cyngor Gwynedd (adrannau YGC, Priffyrdd, Oedolion, Economi, Tai ac Eiddo), CNC, Llysgennad Cymunedol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dŵr Cymru.

5.2.2 Mae Gwynedd yn arwain ar y Cynllun Pobl a’r Amgylchedd Adeiledig drwy weithio yn draws adrannol. Mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a thrwy gomisiwn gan y cwmni Savills mae'r gwaith cwblhau Asesiad Effaith ar Iechyd gyda’r gymuned wedi ei gwblhau yn ddiweddar. Erbyn hyn mae Crynodeb Weithredol wedi ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru ac yr Aelod Senedd, ac mae'r adroddiad llawn ar fin gael ei gyhoeddi.

5.2.3 Roedd y strategaeth ymgysylltu yn cynnwys dosbarthu holiaduron ar-lein a chopïau caled, digwyddiad galw i mewn, cyfweliadau gyda chynrychiolwyr allweddol o'r gymuned, a chyfweliadau ychwanegol ar gyfer y rhai oedd â diddordeb ymgysylltu, ond yn methu â mynychu wyneb-yn-wyneb. Roedd y gyfradd ymateb gyfystyr â 21% o bob aelwyd, a thua 15% o'r holl boblogaeth sy'n byw yn Fairbourne.

5.2.4 Mae'r fforymau cymunedol presennol yn y broses o adolygu eu cylch gorchwyl er mwyn manteisio ar unrhyw grantiau ehangach a chronfeydd elusennol sy'n gysylltiedig ag adfywio, cynaliadwyedd ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd.

5.2.5 Y cam pwysig nesaf fydd i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r ymgynghoriad gyda chymunedau eraill yng Nghymru a'r DU, sy'n wynebu heriau tebyg.

5.3 Prosiect Bermo

5.3.1 Mae Prom y Gogledd yn adnodd pwysig i'r dref gan ei fod yn cyfrannu tuag ag y diwydiant twristiaeth ag yn amddiffyn oddeutu 700 o dai rhag llifogydd o'r môr.

5.3.2 Mae'r strwythur yn profi difrod a llifogydd o'r môr ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r tonnau yn torri dros y strwythur yn aml, gan ddifrodi'r ffordd a'r waliau cyfagos. Mewn stormydd mawr fe all y tonnau dorri dros y strwythur yn gyfan gwbl, gan ddod a risg llifogydd o'r môr i'r tai cyfagos. Mae gostyngiad yn lefel y traeth ar ochor Ogleddol y dref wedi cynyddu cyfradd y difrod i'r strwythur, a chafodd hyn ei amlygu eleni wrth i'r môr danseilio y rhan ogleddol ag achosi cwymp yn y ffordd.

5.3.3 Gydag effeithiau newid hinsawdd ni fydd gwaith cynnal a chadw yn unig yn ddigonol i gynnal lefel derbyniol o amddiffyn i'r dref. Mae cais busnes amlinellol wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i ariannu 100% ac mi fydd y gwaith yma'n dechrau yn y misoedd nesaf.

5.3.4 Oherwydd maint y prosiect bydd y gwaith dylunio manwl yn cymryd tua dwy flynedd gan edrych i ddechrau adeiladu yn y flwyddyn ariannol 26/27.

## 6. Perfformiad

O ran mesurau'r Adran, 'rwyf yn hapus gyda'r perfformiad sydd wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw i'r prif faterion sydd wedi codi.

6.1 Gwasanaeth Goleuo

6.1.1 Rydym yn falch o adrodd ein bod bellach wedi cwblhau gwaith y Prosiect Lampau LED ar darged gan weld holl lampau stryd Gwynedd (17,000) yn cael eu trosglwyddo i dechnoleg LED. Yn sgil y prosiect hwn gwelsom ostyngiad o 45% o fewn ein defnydd egni a gostyngiad o 70% yn ein hallyriadau carbon fesul tunnell ar ddiwedd 2022/23.

6.1.2 Bydd unrhyw ddatblygiad newydd yn cynnwys y dechnoleg LED a bydd gwaith cynnal a chadw'r goleuadau dal i fodoli yn unol â chanllawiau/cyfarwyddiadau presennol. Yn ogystal â hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n egni/carbon effeithlon rydym hefyd yn pylu'r goleuadau o fewn stadau/pentrefi'r Sir i ddefnyddio 25% yn llai o kwh fesul awr rhwng 10:30yh a 6yb.

6.1.3 Yn dilyn diwedd y gwaith yma bydd ein trydanwyr yn rhan annatod o osod pwyntiau gwefru ar draws y Sir.

6.2 Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd

6.2.1 Mae'r gwaith o ddiweddaru ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd sydd yn adlewyrchu gofynion newydd y Cod Ymarfer â phwyslais ar reoli risg, wedi ei gwblhau. Fel rhan o'r adolygiad yma yr ydym wedi ail edrych ar ein trefn cynnal ymylon ffyrdd ac ein trefniadau cyfnodau ymateb i ddigwyddiadau peryglus. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau gwell effeithlonrwydd wrth drefnu gwaith ymateb o fewn y Sir.

6.2.2 Newid arall i'r llawlyfr yw ein trefn rhaglennu gwaith ail wynebu ffyrdd Sirol. Bydd rhaglen flaenoriaeth yn cael ei datblygu ar sail gwybodaeth dechnegol a ddaw o'r system asedau gyda mewnbwn ardal i'r rhestr yn ddilynol.

6.2.3 Yn ogystal â'r datblygiadau uchod, bu gwaith paratoi ar gyfer tymor cynnal gaeaf eu cwblhau gyda phob ardal yn weithredol er ymateb a'r cyfnod heriol yma.

6.3 Gwasanaeth Edrychiad Stryd

6.3.1 Fel rhan o'r ail-strwythuro, penderfynwyd ymgorffori Gwasanaeth Glanhau Stryd, Gwasanaethau Stryd/Gorfodaeth a'r Timau Tacluso yn un Gwasanaeth Edrychiad Stryd (Street Scene) er mwyn gwella glendid, thaclusrwydd a diogelwch yr amgylchedd adeiledig lleol.

6.3.2 **Gwasanaeth Glanhau Strydoedd -** Mae'r gwasanaeth yma yn gyfrifol am ysgubo strydoedd y Sir a chael gwared â sbwriel, dail neu unrhyw eitemau eraill o fannau cyhoeddus a allai beri risg i iechyd a diogelwch y cyhoedd ac effeithio ar edrychiad yr amgylchedd adeiledig lleol.

6.3.3 Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth yn ddiweddar. O ran methodoleg yr adolygiad, yn hytrach na dilyn rhaglen bendant o archwiliadau i weithrediad presennol y Gwasanaeth, gwnaed yr ymchwil ar ffurf cyfweliadau/trafodaethau anffurfiol gyda'r gweithlu, arweinwyr tîm, y cyn-reolwr, a rheolwyr a swyddogion eraill y Cyngor er mwyn cael canfyddiad o sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac a yw'n effeithlon ai peidio. Roedd dull y gwaith ymchwil yn debyg i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio yn ymarferion Ffordd Gwynedd i adnabod camau gwag mewn prosesau gweithredu.

6.3.4 **Gwasanaethau Stryd/Gorfodaeth -** Penodwyd Wardeiniaid ychwanegol i fynd i'r afael â'r problemau sydd wedi codi ers cyfnod yr argyfwng ble gwelir mwy o fan ysbwriel, biniau yn llawn a phroblemau o faw ci i'w weld wedi cynyddu. Mae ein Wardeiniaid wedi bod yn brysur yn codi ymwybyddiaeth ac yn patrolio cymunedau problemus ar draws y Sir.

6.3.5 Cawsom ganlyniadau arolwg annibynnol 'Cadw Cymru yn Daclus' 2022/23 ar ddiwedd mis Gorffennaf. Nodir o fewn yr arolwg hwn bod 141 o drawsluniau unigol wedi eu harchwilio a dyfarnwyd gradd B neu uwch i 95% o'r strydoedd hyn, sef strydoedd sy'n cael eu hystyried bod ganddynt lefel derbyniol o lanweithdra gan y cyhoedd.

6.3.6 **Tîm Tacluso 'Ardal Ni'-** Rhoddir trosolwg o waith y Timau Tacluso yn 4.1. Mae'n deg nodi bod gwaith y timau wedi cael effaith gadarnhaol ar lendid y Sir.

6.4 Toiledau Cyhoeddus

6.4.1 Mae gan y Cyngor 66 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd gyda dau wedi ail agor yn ddiweddar ar gais ein cymunedau. Rydym hyd yma wedi uwchraddio 10 toiled drwy gynlluniau grantiau gyda bwriad i uwchraddio 3 toiled arall y dros y 2 flynedd nesaf drwy grantiau.

6.4.2 Mae'n bwysig nodi bod pwysau wedi bod ar y Gwasanaeth i recriwtio a phenodi yn y maes ac rydym dal yn ymdrechu i ddenu staff i'r swyddi hanfodol a phwysig yma. Mae'r Gwasanaeth yn wynebu sawl sialens o ran y cynyddiad yn ei defnydd ac mewn rhai achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

6.4.3 Wrth edrych i'r dyfodol bydd yn ofyn statudol arnynt i adolygu'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus.

6.5 Cofrestr Risg

6.5.1 Mae gan yr Adran nifer o risgiau lefel uchel ac yn hanfodol i'w adolygu yn rheolaidd. Mae'r risgiau yma wedi eu cofnodi o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Fel rhan o'r drefn Perfformiad Mesurau mae'r risgiau lefel uchel yma yn cael eu trafod er adnabod unrhyw gamau gweithredu. Rhoddir pwyslais ar gysylltiad ein Cofrestr Risg a Chynllun Busnes yr adran i'r dyfodol.

6.6 Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

6.6.1 **Gwaith Masnachol -**Mae'r gwaith masnachol yn cael ei gyflawni trwy gyfuno holl arbenigedd a sgiliau peirianyddol, technegol a gwyddonol i gyfarch anghenion y cleiant drwy ffurfio timau prosiect. Mae prosiectau yn galw am arbenigaeth sawl maes gwaith, oherwydd bod prosiectau o ran eu natur yn wahanol, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddarparu i bob prosiect. Hefyd y bwriad yw bod pob cynllun yn cael ei fesur o ran bodlonrwydd cwsmer.

6.6.2 Y pedwar gwasanaeth yw:

- Dŵr ac Amgylchedd
- Adeiladu ac Isadeiledd
- Busnes a Chyflawni Prosiectau
- Technegol

6.6.3 Cwblhawyd sawl cynllun dros y flwyddyn ddiwethaf, megis atgyweirio cei Aberdyfi, gwelliannau i'r A55 yn ardal Abergwyngregyn, Cynllun Atal Llifogydd Hirael a gwaith ar Bont Bodefail.

6.6.4 Mae materion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn dylanwadu ar bob math o ddatblygiadau. Mae'r tîm amgylcheddol yn gweithio ar sawl cynllun. Maent yn cynnal asesiadau amgylcheddol ar nifer o gynlluniau i sicrhau bod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau yn cael eu gwarchod, ynghyd â darparu mesurau gwella amgylcheddol. Yn ogystal, mae'r tîm yn manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu elfennau sydd yn cynyddu bioamrywiaeth ar gynlluniau.

6.6.5 Mae YGC yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddi staff ac yn arwain yn rhanbarthol ar Gytundeb Hyfforddi Proffesiynol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar waith peirianyddol drwy sefydliad Institution of Civil Engineers (ICE). Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion i ddatblygu eu sgiliau ac i weithio ar gynlluniau mwy heriol. Yn ogystal mae anogaeth a buddsoddiad yn greiddiol i hyrwyddo staff i geisio yn llwyddiannus i aelodaeth broffesiynol eraill gan gynnwys Royal Institution of Chartered Surveyors (RICS) a Chartered Institution of Water and Environment Management (CIWEM). Mae'r staff hefyd yn ymwybodol fod cymwysterau proffesiynol yn allweddol i ddenu a churo gwaith, a dyna pam mae 54% o staff YGC gydag aelodaeth o gyrff proffesiynol.

6.6.6 **Ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd-** Yn ystod y flwyddyn olaf mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar ddatblygu nifer o gynlluniau rheoli risg llifogydd, gan gynnwys Gerddi'r Traphont - Abermaw, Prom y Gogledd - Abermaw, Hirael - Bangor, Cynllun Dalgylch Ogwen, Cynllun Dalgylch Gwyrfai, a Clynnog Fawr. Yn ogystal â chyfres o gynlluniau graddfa llai yn ardal Bethesda ac Abermaw a Blaenau Ffestiniog.

6.6.7 Mae gwaith adeiladu wedi gorffen ar gynllun rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol yn Porthdinllaen a Chei Aberdyfi.

6.6.8 Mae archwiliadau ein hasedau arfordirol yn ein galluogi i adnabod cyflwr ein hasedau a rhaglennu gwaith cynnal a chadw fel bo'r angen. Mae'r gwaith o atgyweirio rhai asedau diffygiol wedi ei raglennu ac mae'r Adran yn parhau i fonitro'r asedau yn y cyfamser.

6.6.9 Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd statudol arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Hyd yma, rydym yn ymwybodol o 46 eiddo sydd wedi profi llifogydd mewnol. Mae ymchwilio a chofnodi'r digwyddiadau hyn yn allweddol i gefnogi ceisiadau am arian cyfalaf er mwyn datblygu achosion busnes ar gyfer cynlluniau rheoli risgiau llifogydd.

6.6.10 Mae gwaith cymeradwyo ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn parhau gyda'r nifer o geisiadau yn sefydlog, ond yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddar o ran adeiladu a gwella eiddo. Mae dau swyddog llawn amser yn gweithio yn yr adran, ynghyd a chefnogaeth o dimau eraill o fewn YGC. Rydyn hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori ar geisiadau SDC i Gyngor Ynys Môn.

## 7. Achrediadau'r Adran

7.1 Achrediadau Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) - Yn 2022/23 bu i'r Gwasanaeth YGC dderbyn achrediad "Buddsoddwyr mewn Pobl" am y trydydd tro. Mi fydd yr adroddiad BMP â'r cynllun gweithredu yn plethu i mewn i gynllun busnes y Gwasanaeth.

7.2 Achrediadau BSI - Mae'r Adran wedi llwyddo i gadw yr achrediadau isod yn dilyn archwiliad rheolaeth dros y flwyddyn gan BSI:

- BSI 9001
- BSI 1401
- BSI 4501

7.3 Mae'r achrediadau yma yn hanfodol ac yn ofynnol i waith nifer o wasanaethau ar draws yr Adran.

## 8. Sefyllfa Ariannol

8.1 Arbedion Ariannol

Mae'r Adran wedi cyflawni mwyafrif gynlluniau arbed ar gyfer 2023/24, gydag oediad mewn un cynllun gwerth £5,000 ond dim pryder o'i gyflawni. Targed arbedion cyfredol yr Adran ar gyfer 2024/25 yw £390,000.

## 9. Barn Y Swyddogion Statudol

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC.